



# Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: Crynodeb o Gam Un (asesiad ymarferwyr o gydymffurfio)

Mae'r [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#) (y cyfeirir ato fel 'y Cod' o hyn ymlaen) 'yn nodi'r hyn y gall pobl awtistig, rhieni a gofaluwr ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru' ac mae'n ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn 'deall y dyletswyddau sy'n bodoli i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth sy'n seiliedig ar anghenion' (tt.1, 2, [Llywodraeth Cymru, 2021](#)).

## Canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad o'r Cod

- Mewn perthynas â dyletswyddau sy'n cwmpasu **asesiad diagnostig**:
  - bu buddsoddiad cenedlaethol sylweddol ers canol y 2010au o ran sefydlu a datblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS). Mewn gwirionedd, nododd y Cod ymarfer presennol mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r IAS ac, ar wahân i'r targed amser aros ar gyfer plant, roedd ardaloedd yn cydymffurfio â'r Cod ar y cyfan ac nid yw'r Cod wedi arwain at lawer o newid mewn ymarfer.
  - Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, bu llai o ffocws a buddsoddi o ran asesiadau diagnostig awtistiaeth mewn gwasanaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl oedolion (AMHS), yn enwedig ers sefydlu'r IAS yn 2016, ac mae llai o hyder bod y gwasanaethau hyn yn cydymffurfio â'r Cod.
- Mewn perthynas â dyletswyddau sy'n cwmpasu **mynediad at wybodaeth, cyngor, asesu a chymorth**:
  - Mae gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth ar gael ym mhob rhanbarth er bod tuedd i randdeiliaid ystyried yr IAS fel 'y gwasanaeth awtistiaeth', gyda llai o sylw yn cael ei roi i'r amrywiaeth o wasanaethau sy'n cynorthwyo unigolion awtistig a/neu eu rhieni neu ofaluwr.
  - Yn gyffredinol, mae gwybodaeth am sut i gael mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol, fel arfer drwy wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth (GCCh), yn cael cyhoeddusrwydd ar wefannau awdurdodau lleol, er y gall fod yn anodd dod o hyd iddi ac nid yw pobl yn cael gwybod am eu hawliau i asesiad o anghenion fel mater o drefn.
  - Mae mynediad at wasanaethau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth wedi gwella, yn enwedig lle mae cynnydd wedi'i wneud o ran cyflwyno'r [fframwaith NYTH](#). Fodd bynnag, mae cynnydd o ran gwella mynediad ar gyfer oedolion ag anghenion cymhleth wedi bod yn fwy anwastad.
- Mewn perthynas â dyletswyddau sy'n cwmpasu **codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant**:
  - Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cynnig hyfforddiant cyffredinol ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth i weithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol; cynnig hyfforddiant lefel uwch i'r rhai sy'n cynnal asesiadau gofal cymdeithasol; a sicrhau bod gan staff mewn gwasanaethau

niwroddatblygiadol Plant a'r IAS sy'n cynnal asesiadau diagnostig y sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen.

- Fodd bynnag, mae'r cynnydd o ran cynnal archwiliadau o anghenion hyfforddi staff ar draws y gweithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol cyfan, a datblygu a chyflwyno hyfforddiant i fynd i'r afael â bylchau, wedi bod yn arafach.
- Mewn perthynas â dyletswyddau sy'n cwmpasu **cynllunio a chomisiynu gwasanaethau**:
  - Mae cyflwyno'r Cod wedi helpu i gynyddu proffil rhai grwpiau awtistiaeth strategol ac annog mwy o ymgysylltu gan uwch gynrychiolwyr mewn byrddau iechyd lleol a/neu awdurdodau lleol. Drwy dynnu sylw at ddyletswyddau cyfreithiol, mae wedi grymuso rhai staff, fel arweinwyr awtistiaeth, i ddatblygu eu gwaith ac mewn rhai ardaloedd, wedi arwain at gryfhau'r rôl arweiniol awtistiaeth.
  - Fodd bynnag, mae grwpiau awtistiaeth rhanbarthol yn gyffredinol wedi cael trafferth defnyddio dull strategol o ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth ac maent wedi tueddu i fod yn adweithiol ac, yn y gorffennol, wedi canolbwyntio'n rhy gul ar yr IAS a gwasanaethau niwroddatblygiadol plant.
- Ar y cyfan, mae **effaith y Cod** wedi bod yn gymharol fach hyd yma. Yn gyffredinol, mae cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod wedi'i ysgogi gan amrywiaeth o ffactorau sy'n cefnogi nodau'r Cod, ond na chawsant eu datblygu oherwydd y Cod. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn modelau cenedlaethol newydd fel yr IAS, a'r fframwaith NYTH a'u cymorth ar gyfer y rhain.
- Fodd bynnag, mae cyflwyno'r Cod wedi tynnu sylw at feysydd sydd wedi'u hesgeuluso neu eu hanwybyddu gan grwpiau strategol rhanbarthol, ac annog ymchwilio i'r rhain, fel asesiad diagnostig mewn gwasanaethau AMHS ac anabled dysgu.
- Mae'r **argymhellion yn y gwerthusiad hwn** yn canolbwyntio ar ddatblygu dull strategol cyffredinol o wella gwasanaethau awtistiaeth yn rhanbarthol a chamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio mewn perthynas â dyletswyddau unigol.

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r diweddariad o'r [Cynllun Gweithredu Strategol](#) Awtistiaeth yn ceisio sicrhau bod 'anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ar y sbectwm awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu deall, ac y byddant yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau lles ac i fyw bywydau llawn' (pwyslais wedi'i hepgor, [t 5, Llywodraeth Cymru, 2016a](#)). I gynorthwyo hyn, mae'r [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#) (y cyfeirir ato fel 'y Cod' o hyn ymlaen) 'yn nodi'r hyn y gall pobl awtistig, rhieni a gofalwyr ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru' ac mae'n ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn<sup>1</sup> 'deall y dyletswyddau sy'n bodoli i ddarparu gwasanaethau awtistiaeth sy'n seiliedig ar anghenion, gan gynnwys cymorth i ofalwyr, ac i godi ymwybyddiaeth gyda phobl awtistig am y cymorth a ddylai fod ar gael' (tt.1, 2 [Llywodraeth Cymru, 2021](#)). Mae'r Cod yn amlygu ac yn atgyfnerthu dyletswyddau presennol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (SSWBWA) 2014 a Deddf y GIG (Cymru) 2006 a chafodd ei gyflwyno fel dewis arall yn lle bil awtistiaeth ar wahân (ibid.).
- 1.2 Mae'r gwerthusiad o'r Cod wedi'i strwythuro mewn dau gam a chanolbwyntiodd y cam cyntaf hwn ar farn ymarferydd ar gydymffurfio. Bydd yr ail gam yn ehangu'r lens, i ystyried profiad unigolion awtistig a rhieni a gofalwyr.
- 1.3 Nod y cam hwn o'r gwerthusiad yw adolygu i ba raddau y mae'r dyletswyddau yn y Cod yn cael eu bodloni gan wasanaethau awtistiaeth ac i ddatblygu argymhellion ar gyfer gwelliannau o ran bodloni'r dyletswyddau. Mae'r cam hwn wedi defnyddio'r canlynol:

---

<sup>1</sup> Mae'r Cod hefyd yn cwmpasu tair ymddiriedolaeth y GIG: Iechyd Cyhoeddus Cymru; Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Fodd bynnag, ni chafodd y rhain eu hystyried fel rhan o'r gwerthusiad.

- gweithdy cychwynnol i drafod a deall bwriad y Cod gydag aelodau o Lywodraeth Cymru a thimau rhaglen gwella gwasanaethau niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru<sup>2</sup>;
- adolygu'r gwaith y mae pob rhanbarth wedi'i wneud i ddatblygu asesiad sylfaenol o'i gydymffurfiaeth â'r Cod. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau a/neu weithdai ar-lein gyda thîm niwroddatblygiadol CLILC a rhanddeiliaid ym mhob rhanbarth ac adolygiad desg o hunanwerthusiad pobl rhanbarth o gydymffurfio, fel arfer yn seiliedig ar offeryn archwilio wedi'i archwilio gan dîm niwroddatblygiadol CLILC;
- datblygu offer a dulliau newydd er mwyn helpu i gasglu data a gwerthuso cydymffurfiaeth yn erbyn y dyletswyddau yn y Cod ac i nodi arfer da;
- adolygiadau desg i, er enghraifft, nodi pa wybodaeth a ddarperir am wasanaethau awtistiaeth ar wefannau awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ac i ba raddau y mae Aseidiadau o Anghenion y Boblogaeth yn ystyried awtistiaeth;
- cyfweld â rhanddeiliaid allweddol (n=25) o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bennaf, ond hefyd yn cynnwys, er enghraifft, arweinwyr awtistiaeth, a allai gael eu cyflogi gan addysg; a
- thrafod asesiad y tîm gwerthuso o gydymffurfiaeth pob ardal â grwpiau strategol rhanbarthol i fireinio a chadarnhau'r asesiad a chael gwybodaeth ychwanegol am ymarfer ym mhob rhanbarth.

1.4 Bydd adroddiad llawn yn cyflwyno'r canfyddiadau ac argymhellion o'r cam gwerthuso cyntaf yn fanylach yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

## 2. Cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth

### Adran 1 y Cod: Dyletswyddau sy'n ymwneud ag asesiad diagnostig

2.1 Mae [Adran 1 y Cod \(tt 12-13\)](#) yn cynnwys 12 dyletswydd sy'n cwmpasu asesiadau diagnostig, gan sicrhau bod:

- llwybrau i wasanaethau diagnostig (gan gynnwys ar gyfer y rhai mewn sefydliadau diogel) a chymorth ôl-ddiagnostig ac asesiadau pellach lle mae angen;
- asesiadau diagnostig yn ystyried canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfranogiad amlddisgyblaethol; a
- chydymffurfio â'r targed amser aros cenedlaethol ar gyfer plant<sup>3</sup> ([Llywodraeth Cymru, 2021](#)).

2.2 Mae buddsoddiadau mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r IAS ers 2015, sefydlu llwybrau cenedlaethol ac, yn achos yr IAS, model cenedlaethol, yn golygu bod rhanbarthau'n cydymffurfio â'r rhan fwyaf o ddyletswyddau<sup>4</sup>. Mewn gwirionedd, yr hyn a wnaeth y Cod yn syml oedd nodi ymarfer presennol ac nid yw, felly, wedi arwain at lawer o newid mewn ymarfer. Fodd bynnag:

- mae'r holl ranbarthau wedi cael trafferth cyflawni'r targed amser aros i blant, o ystyried y diffyg cyfatebiaeth rhwng y galw a'r capasiti (gweler e.e. [Llywodraeth Cymru, 2022](#));

<sup>2</sup> Mae awtistiaeth yn gyflwr niwroddatblygiadol. Mae cyflyrau niwroddatblygiadol eraill yn cynnwys, er enghraifft, Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywioigrwydd (ADHD) a syndrom Tourette, ac mae datblygu polisi cenedlaethol a thimau wedi symud o awtistiaeth i ganolbwytio ar amrywiaeth ehangach o gyflyrau niwroddatblygiadol.

<sup>3</sup> Mae targed amser aros o 26 wythnos o'r agtgyfeirio i'r apwyntiad cyntaf ar gyfer asesiadau diagnostig plant.

<sup>4</sup> Y prif eithriad i hyn yw'r ddyletswydd i ddynodi 'unigolyn i fod yn bennaf gyfrifol am gynnal, adolygu a hyrwyddo llwybrau diagnostig i blant, pobl ifanc ac oedolion.' (t. 13, [Llywodraeth Cymru, 2021](#)). Yn aml, nodwyd clinigwyr unigol fel y rhai sy'n gyfrifol am adolygu llwybrau ar gyfer eu gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl nodi unigolyn a enwir ar gyfer pob gwasanaeth, na nodi bob amser pryd a sut roedd llwybrau wedi'u hadolygu, neu eu hyrwyddo, ac ni roddwyd unrhyw enghreifftiau o un unigolyn â chyfrifoldeb am oruchwylio pob llwybr.

- gall y diffyg cyfatebiaeth rhwng y galw a'r capasiti ac, mewn rhai rhanbarthau, anawsterau recriwtio a chadw staff fygwth cynaliadwyedd timau a gwasanaethau a chydymffurfio parhaus â'r Cod; ac
  - mae pwysau ar wasanaethau wedi cyfyngu ar gapasiti gwasanaethau, ac yn enwedig gwasanaethau niwroddatblygiadol plant, i ddarparu cymorth cyn ac ar ôl asesiad diagnostig (gan gynnwys atgyfeiriadau ar gyfer asesiad a chymorth pellach ar gyfer y rhai nad ydynt yn cyrraedd trothwyon diagnostig).
- 2.3. Mewn perthynas â gwasanaethau eraill sy'n cynnal asesiadau diagnostig, fel gwasanaethau AMHS ac anabledd dysgu, mae llawer llai o hyder bod rhanbarthau'n cydymffurfio â'r Cod. Er enghraifft, mewn perthynas ag AMHS, gwnaed ymdrechion drwy Rwydwaith Diagnostig Cymru Gyfan i adeiladu capasiti yn AMHS (yn ogystal â gwasanaethau anabledd dysgu) (ibid). Fodd bynnag, o 2016, yn dilyn y diweddariad o'r strategaeth awtistiaeth, symudodd y sylw a'r cyllid o'r Rhwydwaith i sefydlu'r IAS. Bod gwasanaethau awtistiaeth integredig wedi cynorthwyo'r AMHS (e.e. gyda chyingor, hyfforddiant, cymorth ac asesiadau ar y cyd (gweler e.e. [Llywodraeth Cymru 2019](#))), mae hyn wedi tueddu i ganolbwyntio ar achosion unigol a chlinigwyr unigol. At hynny, er y dylai'r Cod fod yn cynyddu craffu rhanbarthol ar ymarfer mewn gwasanaethau AMHS ac anabledd dysgu, mae grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr IAS a gwasanaethau niwroddatblygiadol plant.
- 2.4. Mae cryn ansicrwydd am y dyletswyddau mewn perthynas â mynediad at asesiad diagnostig mewn sefydliadau diogel a diffyg craffu ar wasanaethau ar gyfer y rhai yn y sefydliad diogel gan grwpiau strategol rhanbarthol. O ran plant, mae ad-drefnu byrddau iechyd Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg (lle mae'r unig ddwy uned ddiogel i blant) wedi ychwanegu at yr ansicrwydd ynghylch pwy sy'n gyfrifol. Mae ymarfer mewn perthynas ag oedolion yn anghyson ac yn cael ei ddeall yn wael gan grwpiau strategol.

### **Adrannau 1 a 2 o'r Cod: Dyletswyddau sy'n ymwneud â gwybodaeth, cyngor a chymorth a mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol**

- 2.5. Mae [Adrannau 1 a 2 o'r Cod \(tt 12-13, 22-23\)](#) yn cynnwys 12 o ddyletswyddau sy'n cwmpasu gwybodaeth, cyngor a chymorth a mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol, gan gynnwys sicrhau:
- 'bod gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth lleol ar gael fel rhan o'u gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth';
  - bod 'gwybodaeth a chyfeiriadau i gael gwasanaethau asesu';
  - 'pobl awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael asesiad o anghenion ac asesiad gofalwr ar gyfer gofalwr';
  - 'nad yw aros am ddiagnosis yn rheswm dros wrthod cymorth a gwasanaethau eraill'; ac
  - 'nad yw IQ yn cael ei ystyried fel rhan o'r meini prawf cymhwysra ar gyfer asesiad o anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant' (tt. 12-33, 22-22, [Llywodraeth Cymru, 2021](#)).

#### *Gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth*

- 2.6. Nododd cyfweiliadau â rhanddeiliaid a thrafodaethau gyda grwpiau rhanbarthol nifer o ddatblygiadau sy'n rhagddyddio'r Cod ac sydd wedi gwella gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys yn benodol sefydlu:
- arweinwyr awtistiaeth lleol mewn ymateb i'r cynllun gweithredu strategol awtistiaeth cyntaf yn 2008. Mae eu rolau'n amrywio, ond gallant gynnwys nodi gwasanaethau lleol a/neu ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth uniongyrchol i unigolion;
  - grwpiau rhanddeiliaid lleol, sy'n gallu darparu fforymau pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth am wasanaethau awtistiaeth;

- gwefan [Dewis Cymru sy'n dod â gwybodaeth am gyngor a llesiant at ei gilydd](#), a gwasanaethau GCCh ym mhob awdurdod lleol, mewn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a
- yr IAS, yn dilyn y diweddariad o'r cynllun gweithredu strategol yn 2016, sydd (yn ogystal ag asesiadau diagnostig ar gyfer oedolion) yn cynnig cymorth a chyngor i oedolion awtistig, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, er bod ei gynnig o gymorth yn amrywio o ranbarth i ranbarth.

2.7 Fodd bynnag, nid yw 'gwasanaethau awtistiaeth' yn cael eu diffinio gan y Cod (ac mae'r term yn agored i'w ddehongli) ac mae tuedd i randdeiliaid ystyried yr IAS fel 'y gwasanaeth awtistiaeth' ym mhob rhanbarth. Er bod yr IAS yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth, cyngor a chymorth, dim ond un o nifer o wasanaethau ydyw a fydd yn cynorthwyo unigolion awtistig a'u teuluoedd a'u gofalwyr, ac y dylid eu hystyried yn 'wasanaethau awtistiaeth'. Byddai'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau nad ydynt bob amser yn cael eu hyrwyddo fel gwasanaethau 'awtistiaeth'<sup>5</sup> gan nad ydynt yn gweithio gydag unigolion awtistig a/neu eu rhieni a'u gofalwyr yn unig, fel:

- gwasanaethau niwroddatblygiadol, gwasanaethau anabledd dysgu ac AMHS;
- gwasanaethau asesu gofal cymdeithasol;
- Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a thimau anabledd plant; a
- sefydliadau'r trydydd sector (y nodir eu bod yn ffynhonnell allweddol o gymorth i rieni a gofalwyr).

Nododd rhanddeiliaid bod y dirwedd polisi hon sydd ychydig yn gymhleth yn gallu bod yn heriol i'w llywio ac mae'n golygu y gall fod yn anodd nodi 'gwasanaethau awtistiaeth' (heblaw am yr IAS) ar wefannau awdurdodau lleol a BILI<sup>6</sup>. Mae hyn yn bwysig, oherwydd bod y gwefannau hyn (ynghyd â gwasanaethau GCCh, a drafodir isod) yn gyfrwng allweddol ar gyfer lledaenu gwybodaeth am wasanaethau lleol.

2.8 Mae hefyd yn bwysig cofio bod y dyletswyddau'n canolbwyntio'n gyffredinol ar wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth, yn hytrach na'u darparu<sup>7</sup> a bod y ddyletswydd, mewn rhai ffyrdd, yn haws i'w bodloni mewn rhanbarthau lle mae llai o wasanaethau.

#### *Gwybodaeth a chyfeirio i gael gwasanaethau asesu<sup>8</sup>*

2.9 Mewn perthynas â gwasanaethau asesu diagnostig:

- sefydlwyd llwybr cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol plant yn 2015 ([LLIBPhi, 2015](#)). Er bod y lefel uchel iawn o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau yn dangos y gall pob gael mynediad atynt, nododd cyfweiliadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid fod llwybrau'n parhau i fod rhywfaint yn aneglur mewn nifer o ranbarthau ac weithiau tynnwyd sylw at anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau niwroddatblygiadol;
- cafodd llwybr cenedlaethol ar gyfer yr IAS ei sefydlu yn 2017 ([Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, 2017](#)), ac mae llwybrau i IAS unigol yn glir ar y cyfan ac yn cael cyhoeddusrwydd da ar wefannau BILI; ac
- nid yw llwybrau mewn gwasanaethau diagnostig eraill, fel gwasanaethau AMHS ac anabledd dysgu, yn cael cyhoeddusrwydd ac maent yn llwybrau mewnol o fewn gwasanaethau.

<sup>5</sup> h.y. nid yw 'awtistiaeth' yn ymddangos yn enw'r gwasanaeth.

<sup>6</sup> Er enghraifft, bydd chwiliad ar y rhyngwydd am "wasanaethau awtistiaeth" mewn awdurdod lleol penodol fel arfer yn nodi'r IAS a rhai sefydliadau'r trydydd sector ond anaml y bydd yn nodi gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol neu'r BILI sy'n gallu cynorthwyo unigolion awtistig a'u rhieni neu ofalwyr ac yn gwneud hynny.

<sup>7</sup> Y prif eithriad i hyn yw'r ddyletswydd i 'Ddarparu mynediad at wasanaethau sy'n gallu gwneud diagnosis o gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig sy'n ystyried canllawiau arfer gorau NICE ar gyfer cyfraniad amlddisgyblaethol' (t. 12, [Llywodraeth Cymru, 2021](#)).

<sup>8</sup> Mae'r term 'asesiad' yn cael ei ddefnyddio yn y Cod i ddisgrifio asesiadau diagnostig a gofal cymdeithasol, ac mae hyn wedi achosi rhywfaint o ddryswch.



- 2.10 Mae gwybodaeth am sut i gael mynediad at asesiadau gofal cymdeithasol, fel arfer drwy wasanaethau GCCh, yn cael cyhoedduswydd da ar y cyfan ar wefannau ALI, er bod adolygiadau o wefannau ALI yn nodi y gall fod yn anodd dod o hyd i'r wybodaeth hon. At hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oedd unrhyw ranbarthau'n sicrhau'n gyson bod yr holl bobl awtistig yn ymwybodol o'r hawl i gael mynediad at asesiad o anghenion ac asesiad gofalwr<sup>9</sup>. Er enghraifft, dywedodd rhanddeiliaid o wasanaethau iechyd fel arfer eu bod yn atgyfeirio i ofal cymdeithasol pan fyddant o'r farn ei fod yn 'briodol', sef fel arfer pan fyddant yn teimlo ei bod yn debygol bod gan yr unigolyn anghenion cymwys. Gwnaethant roi gwybod am bryderon ynghylch dweud wrth bobl bod ganddynt hawl i asesiad pan deimlir ei bod yn debygol na fyddent yn cael budd o asesiad.<sup>10</sup>
- 2.11 I blant, mae datblygu un pwynt mynediad, fel y panel Un Pwynt Mynediad ar gyfer Llesiant Emosiynol Plant (SPACE-WB), yn cael ei ystyried yn arfer da (gweler e.e. [Comisiynydd Plant Cymru 2020](#)), ond gall olygu nad yw atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r gwasanaethau cymdeithasol. Achosodd hyn rywfaint o drafodaeth ynghylch a oedd y dull hwn yn cydymffurfio â'r Cod. Mae'n amlwg yn gyson ag ysbryd y Cod er, gellir dadlau, nad yw'n gyson â llythyren (neu destun) y Cod.<sup>11</sup>
- 2.12 Yn gyffredinol, nodwyd bod trefniadau rhannu gwybodaeth gwell rhwng gwasanaethau diagnostig awtistiaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant o gymharu ag oedolion. Nodwyd bod hyn oherwydd, yn aml, bod y plentyn a'r teulu yn hysbys cyn diagnosis i wasanaethau gofal cymdeithasol, fel Teuluoedd yn Gyntaf. Roedd y gwasanaethau hyn fel arfer yn parhau i gynorthwyo'r teulu ar yr asesiad diagnostig. Fodd bynnag, nodwyd bod oedolion sy'n cael mynediad at yr IAS er mwyn cael asesiad diagnostig, yn llai tebygol o fod yn cael mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ac felly'n llai tebygol o fod yn hysbys i'r gwasanaethau hyn.

*Mynediad at wasanaethau, diagnosis a'r defnydd o IQ fel maen prawf cymhwysra*

- 2.13 Nododd rhanddeiliaid yn gyson fod awdurdodau lleol ac, i raddau llai, BILLI, wedi neu wrthi'n symud tuag at wasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion yn hytrach na gwasanaethau sy'n seiliedig ar ddiagnostig neu IQ. Fodd bynnag:
- roedd rhywfaint o ddryswch ymhlith rhanddeiliaid rhwng y defnydd o IQ fel maen prawf cymhwysra ar gyfer gwasanaethau (nad yw'n cydymffurfio â'r Cod) a'i ddefnyddio i benderfynu beth fyddai'r gwasanaeth priodol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth (sy'n cydymffurfio â'r Cod);
  - nodwyd bod rhai gwasanaethau awdurdodau lleol, fel gwasanaethau anabled plant, yn dal i'w gwneud yn ofynnol cael diagnosis er mwyn cael mynediad atynt<sup>12</sup>; ac
  - er bod IAS yn cynnig cyngor awtistiaeth sy'n agored i bawb (ac sy'n cael ei ystyried yn arfer da), mae agweddau ar eu cymorth, fel cyrsiau ôl-ddiagnostig, wedi'u cyfyngu i'r rhai sydd â diagnosis, yn unol â'r model IAS cenedlaethol.

<sup>9</sup> Fel yr amlinellir yng [nghanllawiau DGCLI \(Llywodraeth Cymru, 2019\)](#): 'Mae gan unrhyw unigolyn neu deulu sydd angen gofal a chymorth yr hawl i asesiad ar sail yr angen hwnnw'.

<sup>10</sup> Mae'n bwysig nodi hyd yn oed os nad yw'r asesiad yn nodi bod gan unigolyn anghenion cymwys, gall arwain at gyfeirio i wasanaethau ataliol a llesiant (gan gynnwys gwasanaethau'r trydydd sector) i ddiwallu anghenion yr unigolyn.

<sup>11</sup> Er enghraifft, mae'r Cod yn nodi 'pan gynhelir asesiad o awtistiaeth ond na wneir diagnosis, os yw'r asesiad yn nodi bod hynny'n angenrheidiol, gyda chydysyniad yr unigolyn (neu, ar gyfer plant, cydsyniad ei riant neu ofalwr) gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer asesiad o anghenion gofal cymdeithasol.' (t. 12, [Llywodraeth Cymru, 2021](#)).

<sup>12</sup> Fel y nodwyd, gellir defnyddio diagnosis i nodi'r gwasanaeth mwyaf priodol. Fodd bynnag, mae ei gwneud yn ofynnol cael diagnosis er mwyn cael mynediad at rai gwasanaethau yn mynd yn groes i ysbryd y Cod, os nad yw gwasanaethau amgen nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol cael diagnosis, yn gallu darparu'r un lefel o gymorth (neu lefel debyg o gymorth) â'r gwasanaethau hynny sy'n ei gwneud yn ofynnol cael diagnosis.

## **Adrannau 1 a 2 o'r Cod: Dyletswyddau sy'n ymwneud â mynediad neu wasanaethau ar gyfer unigolion sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd**

- 2.14 Mae [Adrannau 1 a 2 o'r Cod \(tt 12-13, 22-23\)](#) yn cynnwys pedair dyletswydd wedi'i bwriadu i sicrhau, er enghraifft:
- 'Lle mae gan bobl awtistig gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, gan gynnwys iechyd meddwl a/neu anableddau dysgu, dylai llwybrau fod ar waith i alluogi mynediad at wasanaethau cymorth sy'n gallu diwallu eu hanghenion cymorth ychwanegol mewn perthynas ag awtistiaeth'; ac
  - 'nad yw pobl â chyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu heithrio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant neu Oedolion.'
- 2.15 Nododd rhanddeiliaid fod nifer o ffactorau, nad ydynt wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r Cod, wedi gwella mynediad at wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:
- datblygu a chyflwyno'r [fframwaith NYTH](#) ac ymgyrch y Comisiynydd Plant ar gyfer 'dim drws anghywir' i wasanaethau ([Comisiynydd Plant Cymru, 2020](#)) a ddefnyddiodd arfer da mewn rhanbarthau, fel panel SPACE-WB yng Ngwent; a
  - chynghor a hyfforddiant ar gyfer CAMHS sydd wedi helpu i gynyddu sgiliau a hyder ymarferwyr i gefnogi plant awtistig.
- 2.16 Nododd rhanddeiliaid fod cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod mewn perthynas â mynediad at wasanaethau i blant sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd gryfaf lle mae gweithredu NYTH yn fwyaf datblygedig. Mae'r ffyrdd y mae'r fframwaith NYTH yn cynorthwyo cydymffurfio â'r Cod ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd, yn enghraifft bwysig o sut y mae angen i bolisi awtistiaeth fod yn rhan o bolisi ehangach – neu ei brif ffyrddio i bolisi ehangach. Serch hynny, o ystyried yr anawsterau hanesyddol, mae modd cyfiawnhau ymchwilio ymhellach i brofiadau plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn ail gam y gwerthusiad.
- 2.17 Mae'r cynnydd o ran mynediad at wasanaethau i oedolion ag anghenion cymhleth wedi bod yn anwastad. Lle mae cynnydd wedi'i wneud, nododd rhanddeiliaid fod y cynnydd hwn wedi'i gefnogi gan:
- sefydlu'r IAS, sy'n gallu cynorthwyo oedolion nad ydynt yn gymwys i gael gwasanaethau eilaidd fel gwasanaethau AMHS neu anabledd dysgu (ond a allai fod ag anawsterau iechyd meddwl neu anabledd dysgu ysgafn o hyd). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, yn unol â'r model cenedlaethol, nad yw'r IAS yn cynorthwyo oedolion awtistig sy'n cael mynediad at wasanaethau eilaidd; a
  - gwaith i godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac ymgynghoriadau yn enwedig gydag AMHS (a drafodir isod).
- 2.18 Fodd bynnag, yn absenoldeb paneli cyfatebol fel SPACE-WB, nodir y gall rhai oedolion ag anghenion cymhleth barhau i gael trafferth cael mynediad at wasanaethau a chymorth ac mae modd cyfiawnhau ymchwilio ymhellach i'w profiadau yn ail gam y gwerthusiad.

## **Adrannau 1, 2 a 3 o'r Cod: Dyletswyddau sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a hyfforddiant**

- 2.19 Mae [Adrannau 1, 2 a 3 o'r Cod \(tt 12-13; 22-23 a 30-31\)](#) yn cynnwys 22 o ddyletswyddau sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod:
- mae amrywiaeth o wybodaeth, adnoddau a hyfforddiant am ymwybyddiaeth o awtistiaeth ar gael i'r cyhoedd;
  - mae ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn deall gwybodaeth, cyngor a chymorth (gan gynnwys gwasanaethau awtistiaeth) ac yn gallu cyfeirio pobl iddynt; ac

- mae gan ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i addasu eu hymarfer i ddiwallu anghenion pobl awtistig yn well; a, lle y bo angen fel rhan o'u rôl, cynghori a hyfforddi eraill a/neu gynnal asesiadau diagnostig neu asesiadau o anghenion.

*Gwybodaeth am awtistiaeth ac ymwybyddiaeth ohoni a chyfeirio i wasanaethau*

- 2.20 Nododd rhanddeiliaid enghreifftiau o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o awtistiaeth. Fodd bynnag, mae'r ffocws yn bennaf wedi bod ar wella mynediad at wybodaeth i unigolion awtistig a'u teuluoedd, yn hytrach na'r cyhoedd.
- 2.21 Fel yr amlinellir uchod yn y drafodaeth am adran 2 o'r Cod, mae cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod mewn perthynas â chyfeirio i wybodaeth, cyngor a chymorth wedi bod yn anwastad. Nododd rhanddeiliaid mai prin yw'r camau a gymerwyd i sicrhau bod staff iechyd ac awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh a sut i atgyfeirio pobl awtistig i'r gwasanaeth (heblaw am roi cyhoeddusrwydd i hyn ar wefannau awdurdodau lleol).

*Sgiliau, gwybodaeth a hyder staff*

- 2.22 Mae cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod mewn perthynas â hyfforddiant staff yn amrywio. Nododd rhanddeiliaid fod cynnydd da wedi'i wneud o ran:
- cynnig hyfforddiant cyffredinol ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth i weithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol ac, mewn sawl awdurdod lleol, mae bellach yn orfodol;
  - cynnig hyfforddiant lefel uwch i'r rhai sy'n cynnal asesiad gofal cymdeithasol; a
  - sicrhau bod staff mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r IAS sy'n cynnal asesiadau diagnostig yn meddu ar y sgiliau a'r cymhwysedd gofynnol<sup>13</sup>.
- 2.23 Mae rhanddeiliaid o'r farn bod yr hyfforddiant sydd wedi'i ddatblygu gan y tîm niwroddatblygiadol cenedlaethol yn ddefnyddiol a chafwyd mentrau lleol pwysig hefyd, sy'n aml yn cael eu hysgogi gan arweinwyr awtistiaeth, sy'n rhagdyddio'r fframwaith hyfforddiant awtistiaeth cenedlaethol. Mae rhanddeiliaid hefyd yn nodi bod y dyletswyddau cyfreithiol a fynegir yn y Cod wedi helpu i godi proffil a phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ymhlith rheolwyr datblygu'r gweithlu.
- 2.24 Mae'r Cod hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol a BILI yn asesu anghenion hyfforddiant awtistiaeth **eu holl staff** sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (pwyslais wedi'i ychwanegu) a sicrhau bod yr holl staff yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant awtistiaeth sydd ei angen. Fel yr amlinellir uchod (ym mharagraff 2.22), ceir enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â grwpiau staff penodol. Fodd bynnag, dim ond dau awdurdod lleol nododd fod dadansoddiadau o anghenion hyfforddiant ar draws y gweithlu wedi'u cwblhau ac mae'r gwaith o ddatblygu cynlluniau hyfforddiant i fynd i'r afael â bylchau yn parhau i fod anwastad ar y cam hwn, er bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo mewn sawl rhanbarth.
- 2.25 Yn ogystal, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyda BILI gynnwys pobl awtistig a'u rhieni a'u gofawyr wrth ddatblygu a darparu hyfforddiant awtistiaeth. Mae'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth a ddatblygwyd gan y tîm niwroddatblygiadol cenedlaethol wedi'i gydgynhyrchu, felly mae defnyddio'r hyfforddiant hwn yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth. Ceir enghreifftiau o gynnwys pobl awtistig wrth ddatblygu hyfforddiant penodol ar gyfer BILI neu awdurdod lleol, ond mae hyn yn anghyson.

---

<sup>13</sup> Fodd bynnag, mae llai o hyder am sgiliau, gwybodaeth a phrofiad staff mewn gwasanaethau anabledd dysgu neu AMHS mewn grwpiau strategol rhanbarthol. Nodir yn gyffredinol y credir bod gan glinigwyr anabledd dysgu a gwasanaethau anabledd dysgu y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad gofynnol. Mewn AMHS, credir bod gan glinigwyr unigol y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sy'n ofynnol ond mae amheuaeth ynghylch a yw hyn yn wir am y gwasanaeth cyfan. Ni fu archwiliad ffurfiol o sgiliau yn naill ai'r gwasanaethau anabledd dysgu na'r AMHS ac mae llai o ddealltwriaeth o'r hyfforddiant y mae staff yn y gwasanaethau hyn wedi'i gwblhau neu o'u profiad yn cynnal asesiadau diagnostig awtistiaeth.



### **Adrannau 3 a 4 o'r Cod: Dyletswyddau sy'n gysylltiedig â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau**

- 2.26 Mae [Adrannau 3 a 4 o'r Cod \(tt 30-31, 36\)](#) yn cynnwys pum dyletswydd sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd sy'n ymwneud â chynllunio a chomisiynu gwasanaethau gan gynnwys:
- datblygu timau strategol a gweithredol sy'n cynnwys pobl awtistig i lywio'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau a phenodi 'hyrwyddwr awtistiaeth' rhanbarthol;
  - sicrhau bod anghenion pobl awtistig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a Chynlluniau Ardal;
  - annog arloesedd a darparu gwasanaethau arbenigol; a
  - monitro a chasglu data.
- 2.27 Mae sefydlu, rôl ac effeithiolrwydd grwpiau awtistiaeth strategol a gweithredol a rôl yr hyrwyddwr awtistiaeth yn amrywio'n sylweddol ar draws y saith rhanbarth. Roedd grŵp awtistiaeth strategol ym mhob un o'r saith rhanbarth; fodd bynnag:
- maent yn tueddu i ganolbwyntio ar y gwasanaeth niwroddatblygiadol plant a'r IAS ac roedd gwaith craffu ar wasanaethau awtistiaeth eraill, a rôl yn eu datblygu, yn gyfyngedig ar y cyfan;
  - nid ydynt bob amser yn cynnwys cynrychiolwyr BILI a/neu awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weithredu'r Cod neu sydd â digon o awdurdod i lywio'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth;
  - nid oedd y berthynas rhwng y grŵp strategol awtistiaeth, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a grwpiau strategol eraill y BPRh bob amser yn glir. Yn rhannol, ym marn y tîm gwerthuso, ymddengys fod hyn yn adlewyrchu'r gweddu anesmwyth weithiau rhwng grŵp strategol awtistiaeth sy'n canolbwyntio ar gyflwr penodol i bob oedran a grwpiau strategol rhanbarthol eraill sydd â chylch gwaith trawsbynciol llawer ehangach ar gyfer grŵp oedran penodol fel plant a phobl ifanc, oedolion neu bobl hŷn; ac
  - roedd cyfranogiad uniongyrchol pobl â phrofiad bywyd yn aml yn gyfyngedig ac nid oedd y cysylltiadau rhwng y grŵp strategol, arweinwyr awtistiaeth lleol a grwpiau rhanddeiliaid lleol bob amser yn glir.
- 2.28 Nododd cyfweiliadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid fod cyflwyno'r Cod wedi helpu i ddatblygu proffil rhai grwpiau strategol ac annog mwy o ymgysylltu gan uwch gynrychiolwyr y BILI a/neu'r awdurdod lleol. Mae wedi grymuso rhai staff, fel arweinwyr awtistiaeth, a all dynnu sylw at y dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar awdurdodau lleol a BILI. Mewn rhai ardaloedd, mae hefyd wedi cryfhau eu rôl. Mae hefyd wedi helpu i roi diben cliriach i rai grwpiau strategol awtistiaeth (sy'n canolbwyntio ar asesu cydymffurfio). Fodd bynnag, mae ehangder, hyd a chymhlethdod y Cod wedi ei gwneud yn anodd i grwpiau strategol awtistiaeth rhanbarthol flaenoriaethu camau gweithredu oherwydd:
- bod asesiad o gydymffurfio wedi amlygu cynifer o feysydd lle roedd angen camau gweithredu;
  - gall canolbwyntio ar gydymffurfio â'r Cod fwrw cysgod dros feysydd nad ydynt wedi'u cwmpasu gan y Cod ond sy'n bwysig ac mae'n arwain at y perygl o annog yr hyn a ddisgrifiwyd gan rhanddeiliaid fel dull 'ticio blychau' o ran cydymffurfio; a
  - gall fod yn anodd gweld y cysylltiadau rhwng rhannau o'r Cod a'r darlun mwy (neu'r system ehangach) os yw'r ffocws yn culhau i bob un o'r 51 o ddyletswyddau unigol; fel y dywedodd un rhanddeiliad, mae'n 'anodd gweld y coed gan brennau'.
- 2.29 Nododd sawl rhanbarth eu bod wedi cael trafferth nodi rhywun sy'n barod i ymgymryd â rôl hyrwyddwr awtistiaeth a/neu mae eu hyrwyddwyr wedi ymddiswyddo o'r rôl. At hynny, lle maent yn y swydd, mae proffil hyrwyddwyr awtistiaeth yn gyffredinol yn parhau i fod yn isel. Er enghraifft, roedd llawer o rhanddeiliaid nad oeddent yn glir pwy oedd eu hyrwyddwr rhanbarthol.
- 2.30 O ystyried y pwysau a'r cyfyngiadau ariannol y mae BILI ac awdurdodau lleol yn eu hwynebu, mae'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gwasanaethau awtistiaeth drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth wedi bod yn bwysig.

Mae wedi cynorthwyo camau gweithredu i helpu rhanbarthau i symud yn agosach at gydymffurfio, er enghraifft drwy gyllido gwasanaethau niwroddatblygiadol i wella eu capasiti i gynnal asesiad diagnostig a chymorth cyn ac ôl-ddiagnostig ac, mewn rhai ardaloedd, cynorthwyo'r trydydd sector. Fodd bynnag, nododd rhanddeiliaid nad yw grwpiau awtistiaeth strategol bob amser wedi cymryd rhan mewn penderfyniadau am sut mae'r cronfeydd hyn yn cael eu defnyddio ac mae oedi wrth ryddhau cyllid wedi cyfyngu ar ba mor effeithiol neu strategol y gellir eu defnyddio<sup>14</sup>.

- 2.31 Er bod awtistiaeth yn cael ei hystyried mewn Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth ym mhob rhanbarth, gydag ambell eithriad (fel Caerdydd a'r Fro), mae'r graddau y mae Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth yn cynnwys asesiad cadarn o anghenion a gwasanaethau awtistiaeth yn gyfyngedig. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu nad oes llawer o dystiolaeth bod yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn llywio'r broses o ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol ac arloesedd.
- 2.32 Mae pob rhanbarth yn cydymffurfio â'r dyletswyddau o ran casglu data<sup>15</sup>, er bod trafodaethau gyda rhanddeiliaid ac adolygiad o gynlluniau'n awgrymu nad yw'r defnydd o'r data gan grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol i lywio penderfyniadau am ddatblygu gwasanaethau yn gyson, ac mae gwybodaeth grwpiau am brofiad bywyd unigolion awtistig (e.e. o gael mynediad at wasanaethau a chymorth) yn aml yn dameidiog ac yn anecdotaidd. At hynny, mae'r dyletswyddau casglu data yn y Cod yn gul ac mae gwendid yn yr amrywiaeth o ddata yn cyfrannu at wendid mewn Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth.

### 3. Asesu effaith debygol y Cod

- 3.1 Mae'r Cod yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r blaenoriaethau a amlinellir yng [Nghynllun Gweithredu Strategol](#) awtistiaeth 2016. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn adran dau:
- mae'r graddau y mae awdurdodau lleol a BILI yn cydymffurfio â'r Cod yn amrywio, ac
  - mae'r graddau y gellir priodoli newidiadau mewn ymarfer i'r Cod yn amrywio'n sylweddol hefyd, gan fod cyflwyno'r Cod fel arfer dim ond yn un o amrywiaeth o ffactorau a gyfrannodd at y newidiadau a nodwyd a/neu mae'r newidiadau'n rhagddyddio cyflwyno'r Cod.
- 3.2 O ystyried y ddau gafeat pwysig hyn, mae'r gwerthusiad yn awgrymu, ar y cam hwn, yn y rhan fwyaf o ranbarthau mai prin iawn fu effaith y Cod ei hun ar fynediad at asesiadau diagnostig neu asesiadau gofal cymdeithasol; gwybodaeth a chynngor; a chynllunio a chomisiynu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae wedi cael effaith bwysig ar godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, er bod angen rhagor o waith o hyd.
- 3.3 Mae cyfyngiadau'r Cod, sydd ond yn cwmpasu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd ac nid, er enghraifft, gwasanaethau addysg, cyflogaeth na thai, hefyd yn debygol o gyfyngu ar ei effaith ar fywydau pobl.
- 3.4 Yn yr un modd, mae'r gwerthusiad hefyd yn tynnu sylw at welliannau pwysig ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn, er bod y gwerthusiad hwn yn awgrymu mai prin neu ymylol fu effaith y Cod ar y gwelliannau hyn ar y cam hwn. Er enghraifft:
- er bod y bwlch rhwng y galw a'r capasiti yn parhau i herio ac ymestyn gwasanaethau niwroddatblygiadol a rhestrau aros yn parhau'n rhy hir, mae cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (sy'n cynnwys cyllid ar gyfer yr IAS) a chyllid y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth,

---

<sup>14</sup> Er enghraifft, nodwyd y daeth y penderfyniadau cyllido yn rhy hwyr yn y flwyddyn ariannol ac, oherwydd bod y cyllid yn gyfyngedig o ran amser, ni ellid ei ddefnyddio i recriwtio staff parhaol ychwanegol i gynyddu capasiti. O ystyried y pwysau ariannol a monitro nifer o BILI, roedd amharodrwydd i gymryd risgiau a chymeradwyo penderfyniadau cyllid a oedd yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn darparu cyllid yn y dyfodol.

<sup>15</sup> Mae gofynion y ddyletswydd yn cynnwys BPRh yn cyflwyno adroddiadau ar y defnydd o gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth; y gwasanaeth niwroddatblygiadol plant yn darparu data ar amseroedd aros i Lywodraeth Cymru; a'r IAS yn darparu data chwarterol i'r tîm niwroddatblygiadol cenedlaethol (drwy Data Cymru).

wedi helpu i gynyddu capasiti asesu diagnostig rhywfaint<sup>16</sup>. Dylai adolygiad Uned Gyflawni'r GIG o wasanaethau niwroddatblygiadol plant hefyd gefnogi camau gweithredu yma;

- Mae cyllid y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth hefyd wedi cefnogi gwelliannau o ran mynediad at gymorth i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis, yn ogystal â symud tuag at weithredu'r fframwaith NYTH ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd;
- mae GCCh, Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a, lle maent yn cael cyllid, gwasanaethau wedi'u targedu at blant, oedolion awtistig a/neu deuluoedd<sup>17</sup>, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan y trydydd sector, wedi gwella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth i blant a theuluoedd;
- Mae'r IAS yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth ddarparu mynediad at wybodaeth a chymorth i oedolion awtistig nad ydynt yn gymwys i gael cymorth gan wasanaethau eilaidd; rhieni a gofawyr (er bod rhanddeiliaid yn adrodd bod rhai IAS wedi lleihau'r cymorth y maent yn ei gynnig i rieni a gofawyr); ac, yn gynyddol, yr unigolion hynny sy'n aros am asesiad neu nad ydynt wedi cael diagnosis yn dilyn asesiad; ac
- mae'r Cod wedi codi proffil awtistiaeth ymhellach a'r pwysigrwydd a roddir iddo gan awdurdodau lleol a BILI yn rhanbarthol ac mewn gwasanaethau<sup>18</sup>. Mae'r asesiad o gydymffurfio â'r Cod hefyd wedi tynnu sylw at feysydd sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu hanwybyddu'n rhy aml gan grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol, ac annog ymchwilio i'r meysydd hyn a myfyrio arnynt, fel:
  - ymarfer mewn gwasanaethau fel AMHS a gwasanaethau anabledd dysgu sy'n cynnal asesiad diagnostig awtistiaeth;
  - mynediad at wybodaeth am wasanaethau awtistiaeth (heblaw am yr IAS);
  - mynediad at wasanaethau a chymorth i blant ac oedolion mewn sefydliadau diogel; y rôl y mae pobl â phrofiad bywyd yn gallu ac y dylent ei chwarae wrth ddylunio a chyflwyno hyfforddiant a gwasanaethau.

#### 4. Casgliadau ac argymhellion

##### *Cydymffurfio â'r Cod*

4.1 Er bod y Cod yn ailddatganiad o ddyletswyddau presennol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf GIG Cymru (yn hytrach na chreu dyletswyddau newydd) mae'r gwerthusiad yn nodi bod awdurdodau lleol a BILI yn dal i gychwyn ar daith tuag at gydymffurfio'n llawn<sup>19</sup>. Er enghraifft:

- mewn perthynas â rhannau o'r Cod, fel asesiadau diagnostig gan yr IAS, roedd rhanbarthau eisoes yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod;
- mae'r asesiad rhanbarthol o gydymffurfio wedi tynnu sylw at feysydd sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu hanwybyddu'n gan grwpiau awtistiaeth strategol rhanbarthol, ac annog ymchwilio i'r meysydd hyn a myfyrio arnynt; ac
- mae'r asesiad rhanbarthol o gydymffurfio hefyd wedi tynnu sylw at nifer o ddyletswyddau penodol i awdurdodau lleol a BILI:
  - nad ydynt yn gallu eu bodoli ar hyn o bryd, yn fwyaf nodedig yr amser aros ar gyfer asesiad diagnostig plant;

---

<sup>16</sup> Fel y nodwyd, dywedodd rhanddeiliaid er bod y cyllid wedi cael ei groesawu'n fawr, mae oedi o ran rhyddhau cyllid ac anawsterau recriwtio staff wedi cyfyngu ar ei effaith.

<sup>17</sup> Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau sydd, er enghraifft, yn cynorthwyo plant neu oedolion niwroamrywiol neu anabl (ac nid dim ond plant ac oedolion awtistig).

<sup>18</sup> Er enghraifft, nododd rhanddeiliaid fod statws cyfreithiol y Cod yn helpu i sicrhau bod cydweithwyr mewn BILI ac awdurdodau lleol yn rhoi sylw iddo.

<sup>19</sup> Mae hyn yn gyson â'r gwerthusiad diweddar o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)).

- y maent yn eu cael yn anodd gwerthuso ac, felly, i asesu cydymffurfio yn eu herbyn, fel y ddyletswydd i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn eu lle i bobl awtistig gael mynediad at wasanaethau yn yr un ffordd â phawb arall<sup>20</sup>;
- anghytuno â nhw, gan nad yw'r hyn y maent yn ei ystyried yn arfer da, fel arfer disgrisiwn ynghylch dweud wrth rywun bod ganddynt hawl i asesiad o anghenion, yn gyson â dyletswyddau'r Cod; neu
- maent yn ei chael yn anodd cydymffurfio â nhw oherwydd eu bod yn mynd yn groes i fodel a dull cenedlaethol<sup>21</sup>.

4.2 Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn archwilio cydymffurfio â'r Cod a'i effaith ymhellach drwy ystyried profiadau unigolion awtistig a rhieni a gofalwyr.

#### *Galluogwyr a rhwystrau i gydymffurfio*

4.3 Fel yr amlinellwyd yn adran tri, mae effaith y Cod yn aml wedi bod yn gymharol fach. Mae hyn yn adlewyrchu cyfres o alluogwyr a rhwystrau ehangach sydd wedi cefnogi neu rwystro cydymffurfio. Ymhlith y ffactorau allweddol sydd wedi cefnogi cydymffurfio (h.y. galluogwyr) mae:

- proffil a grym cyfreithiol y Cod (er hyd yn oed yma, mae rhanddeiliaid yn nodi bod y Cod weithiau'n cael ei ystyried yn fwy fel canllawiau na gofyniad statudol) a'r ffordd y mae wedi grymuso unigolion a oedd yn flaenorol â'r angerdd i newid pethau ond a oedd wedi gorfod dibynnu ar berswâd i ysgogi newid;
- cyfres ehangach o bolisiau a deddfwriaeth nad ydynt yn benodol i awtistiaeth ond sy'n cynorthwyo cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod a/neu yn gwneud hyn yn ofynnol;
- cyllid Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth cenedlaethol fel gwasanaethau niwroddatblygiadol plant a'r IAS ac, yn fwy diweddar, cyllid ychwanegol i gynorthwyo'r Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth; a
- y cymorth gan y tîm niwroddatblygiadol cenedlaethol, yn enwedig o ran hyfforddiant, gan gynnwys datblygu fframwaith hyfforddi cenedlaethol a modiwlau e-ddysgu, a gwybodaeth ac adnoddau i rieni a gofalwyr, plant, pobl ifanc ac oedolion, cyflogwyr a gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol (gweler e.e. [Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, 2023](#)).

4.4 Ymhlith y ffactorau allweddol sydd wedi rhwystro cydymffurfio (h.y. rhwystrau) mae:

- ehangder, cymhlethdod a strwythur y Cod sy'n gallu canolbwyntio sylw ar ddyletswyddau unigol ar wahân i'w gilydd, gan annog dull 'ticio blychau' o ran cydymffurfio ac sydd hefyd yn ei gwneud yn heriol asesu cydymffurfio a blaenoriaethu camau gweithredu<sup>22</sup>;
- y pellter parhaus rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sy'n golygu, er gwaethaf nifer o ddyletswyddau ar y cyd, fod tuedd i ganolbwyntio ar ddyletswyddau a rolau 'awdurdodau lleol' neu 'BILI', yn hytrach na ffocws cydweithredol gwirioneddol ar y ffordd orau o gydymffurfio â'r dyletswyddau yn y Cod;
- y pwysau ariannol y mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu o ganlyniad i lefelau uchel o alw a chyfyngiadau ar eu capasiti, gan gynnwys problemau o ran recriwtio a chadw staff; a

<sup>20</sup> Mae'r ffocws ar werthuso'r broses yn cael ei gyfyngu gan dystiolaeth dameidiog o weithredu polisiau. Er enghraifft, mae gan awdurdodau lleol a BILI bolisiau ar wneud addasiadau rhesymol ac yn cynorthwyo hyn drwy godi ymwybyddiaeth staff a hyfforddiant. Fodd bynnag, prin fu'r gwerthuso ymarfer staff ar draws awdurdodau lleol a BILI (h.y. a ydynt yn gwneud addasiadau rhesymol yn gyson?) a fyddai'n ymarfer sylweddol ynddo'i hun, ac yn ddelfrydol dylai cydymffurfio â'r ddyletswydd hon gael ei werthuso hefyd drwy archwilio profiadau unigolion awtistig.

<sup>21</sup> Y fwyaf nodedig, sefydlu'r IAS fel gwasanaeth a sefydlwyd i ddarparu cymorth ôl-ddiagnostig. Gan fod hyn yn mynd yn groes i'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol a BILI i 'sicrhau nad yw aros am ddiagnosis yn rheswm dros wrthod cymorth a gwasanaethau eraill'. Er, fel yr amlinellwyd uchod, bod croeso i'r camau gweithredu a gymerwyd i agor cynnig cymorth yr IAS i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis, nid ydynt hyd yma yn darparu cymorth cyfartal i'r rhai sy'n aros am ddiagnosis.

<sup>22</sup> Er enghraifft, mynegodd rhanddeiliaid bryderon na fydd newidiadau mewn prosesau gwasanaethau i sicrhau cydymffurfio ar bapur, o bosibl yn gwneud unrhyw wahaniaeth i fywydau unigolion awtistig na'u rhieni a'u gofalwyr.

- gwendid mewn arweinyddiaeth a chydlynu rhanbarthol lle, er enghraifft, nad oes unrhyw unigolyn na grŵp wedi cymryd cyfrifoldeb am asesu cydymffurfio a nodi'r camau gweithredu gofynnol.

#### *Argymhellion ar gyfer gwelliannau wrth fodloni dyletswyddau'r Cod*

- 4.5 Mae cyfres o argymhellion wedi'u gwneud i bob awdurdod lleol a BILI i fynd i'r afael â meysydd penodol lle nad ydynt yn cydymffurfio neu lle nad oes digon o dystiolaeth i farnu cydymffurfio â'r Cod ar y cam hwn. Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar bedair adran y Cod ac oherwydd effaith gyfyngedig y Cod hyd yma, maent yn canolbwyntio ar sut y gellid cynyddu effaith y Cod.
- **Adran 4 y Cod: Cynllunio a chomisiynu:** cryfhau rôl grwpiau strategol rhanbarthol, grwpiau gweithredol, hyrwyddwyr awtistiaeth, pobl sydd â phrofiad bywyd ac offer cynllunio fel Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, er mwyn:
    - nodi arfer da (yn eu rhanbarth eu hunain a rhanbarthau eraill) y gellir eu cynyddu a/neu eu rhannu;
    - gwella'r gwaith o graffu ar ymarfer sydd wedi'i anwybyddu neu ei esgeuluso gan grwpiau strategol rhanbarthol (e.e. mewn perthynas ag asesiadau diagnostig mewn AMHS a gwasanaethau anabledd dysgu) a, lle bo angen, nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau neu wendidau; a
    - sicrhau bod dull strategol ar draws systemau i ddatblygu gwasanaethau awtistiaeth yn cael ei gymryd. Dylai hyn yn ei dro:
      - gael ei lywio gan well data ar arferion gwasanaethau a phrofiadau pobl awtistig (y dylai ail gam y gwerthusiad ei gefnogi);
      - helpu i sicrhau bod adnoddau (gan gynnwys cyllid ychwanegol fel y Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth) yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau; a
      - helpu i 'brif ffrydio awtistiaeth' mewn datblygiad polisi ehangach.
  - O ystyried ehangder y Cod, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a grwpiau awtistiaeth strategol nodi'r canlynol:
    - y meysydd hynny lle dylai'r grŵp strategol awtistiaeth arwain neu gymryd rôl fwy uniongyrchol wrth ddatblygu, llunio a goruchwylio polisi ac ymarfer awtistiaeth; a
    - y meysydd hynny, fel cymorth a chefnogaeth gynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd; datblygu a hyfforddi'r gweithlu; a gwybodaeth am asesu gofal cymdeithasol a mynediad ato, a grwpiau strategol rhanbarthol eraill fydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â hyn. Dylai rôl y grŵp strategol awtistiaeth yma fod yn sicrhau bod awtistiaeth yn cael ei hystyried a'i phrif ffrydio i bolisi yn y meysydd hyn.
  - **Adran 3 y Cod: Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant:** sicrhau bod awdurdodau lleol a BILI yn ystyried awtistiaeth mewn dadansoddiadau o anghenion hyfforddiant o'r gweithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol, cydgynhyrchu cynlluniau hyfforddi i fynd i'r afael â bylchau a diffygion a nodwyd mewn sgiliau, gwybodaeth, profiad a/neu hyder staff; a monitro a gwerthuso effeithiolrwydd hyn.
  - **Adrannau 1, 2 a 3 o'r Cod: Gwella ymwybyddiaeth o wasanaethau a mynediad atynt,** cryfhau'r gwaith o fapio a nodi gwasanaethau awtistiaeth ym mhob ardal a, lle y bo'n berthnasol, y llwybrau i gael mynediad at y gwasanaethau hyn a gwella'r broses o rannu'r wybodaeth hon. Fel yr amlinellir uchod, dylai hyn gael ei brif ffrydio i strategaethau ehangach awdurdodau lleol a BILI, er enghraifft (fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant) sicrhau:
    - bod staff yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh a sut i atgyfeirio pobl i'r gwasanaeth; a
    - bod pobl y gallai fod ganddynt anghenion gofal a chymorth yn ymwybodol o'u hawl i asesiad o anghenion.
  - dylai awdurdodau lleol a BILI fabwysiadu amrywiaeth o ddulliau a phartneriaid i estyn allan i ymarferwyr, unigolion awtistig a'u rhieni neu ofalwyr, fel gwefannau, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, Cysylltwyr Cymunedol, Llyw-wyr, Teuluoedd yn Gyntaf a Gwasanaethau



Gwybodaeth i Deuluoedd, gwasanaethau anabledd plant ac oedolion, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau a rhwydweithiau rhanddeiliaid a swyddogion awtistiaeth.

- **Adran 1 y Cod: Gwella mynediad at wasanaethau diagnostig:** Mae BILL yn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â heriau rhwng y galw a'r capasiti sy'n wynebu gwasanaethau niwroddatblygiadol, gan ddefnyddio'r [Adolygiad o Wasanaethau Niwroddatblygiadol](#) a'r adolygiad diweddar o wasanaethau niwroddatblygiadol plant a gynhaliwyd gan Uned Gyflawni'r GIG; ac adolygu, a lle y bo angen, cryfhau llwybrau, prosesau a/neu ymarfer mewn AMHS a gwasanaethau anabledd dysgu (a gwasanaethau eraill sy'n cynnal asesiadau diagnostig).

#### *Argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo gweithredu rhanbarthol*

- Parhau i roi cyhoeddusrwydd i'r Cod a chodi ei broffil a'r ddealltwriaeth ohono (a'i ddyletswyddau cyfreithiol) ymhlith BPRh, BILL, awdurdodau lleol a'r cyhoedd.
- Adolygu'r Cod a/neu'r canllawiau ategol i roi mwy o eglurder ar ddyletswyddau (gan gynnwys sut beth yw cydymffurfio) mewn perthynas â'r canlynol:
  - sefydliadau diogel;
  - pa ddyletswyddau sy'n berthnasol i asesiadau diagnostig, pa rai sy'n berthnasol i asesiadau gofal cymdeithasol, a pha rai sy'n berthnasol i'r ddau; a
  - rhoi gwybod i bobl y gallai fod ganddynt anghenion gofal a chymorth am eu hawl i asesiad o anghenion.
- Gweithio gyda'r tîm niwroddatblygiadol cenedlaethol a rhwydweithiau, fel y rhwydwaith arweinwyr awtistiaeth, i rannu arfer da.
- Annog mwy o graffu ar i ba raddau yr ymdrinnir ag awtistiaeth yn ddigonol mewn Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth BPRh, cynlluniau ardal ac adroddiadau blynyddol.
- Sicrhau (drwy werthuso cynigion ac adroddiadau) bod cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth yn cael eu defnyddio i gefnogi cydymffurfio â dyletswyddau'r Cod.
- Ystyried datblygu canllawiau gweithredol a fframwaith awtistiaeth/niwroddatblygiadol ar gyfer clinigwyr AMHS.

## Llyfryddiaeth

Comisiynydd Plant Cymru (2020) [Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant](#)

Comisiynydd Plant Cymru (2023) [Dim Drws Anghywir i Niwroamrywiaeth: Llyfr o Brofiadau](#)

Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (2017). [Canllawiau Ategol](#)

Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol (2023). [Taflen Adnoddau](#)

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (2023) [A national framework to deliver improved outcomes in all-age autism assessment pathways: guidance for integrated care boards](#)

Senedd (2018) [Cadernid Meddwl: Adroddiad ar y newid mawr sydd ei angen o ran cefnogaeth ym maes iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru](#)

Senedd (2021) [Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion yng Nghymru](#)

Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (2015) [Llywbr Asesu Diagnostig Niwroddatblygiad](#)

Llywodraeth Cymru (2016a) [Diweddariad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwyldeu'r Sbectrwm Awtistig](#)

Llywodraeth Cymru (2016b) [Gwerthuso Canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwyldeu'r Sbectwm Awtistig: Adroddiad Terfynol](#)

Llywodraeth Cymru (2019) [Gwerthusiad o'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwyldeu'r Sbectwm Awtistig: adroddiad terfynol](#)

Llywodraeth Cymru (2021) [Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth](#)

Llywodraeth Cymru (2023). [Adolygiad o wasanaethau niwroddatblygiadol](#)

Llywodraeth Cymru (2023) [Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

Awduron yr Adroddiad: Dr Duncan Holtom gyda Dr Sarah Lloyd-Jones

**Pobl & Gwaith** | **People & Work**

Adroddiad Ymchwil Llawn: Pobl & Gwaith (2023). *Gwerthusiad o'r Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth: Crynodeb o Gam Un (asesiad ymarferwyr o gydymffurfio)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 104/2023.

Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-cod-ymarfer-ar-gyflenwi-gwasanaethau-awtistiaeth>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sydd yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Laura Entwistle

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [Ymchwil.lechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru](mailto:Ymchwil.lechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83577-037-5